Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr Dr Peter Higson a'r Prif Weithredwr Gary Doherty:

Roeddem yn falch o dderbyn y cyflwyniad gan Donna Ockenden i'r Bwrdd heddiw ar ddarganfyddiadau ei hadolygiad ar lywodraethu a'i hargymhellion cysylltiedig. Yn amlwg, bydd arnom angen ystyried ei hadroddiad yn fanwl dros yr wythnosau nesaf ond mae'r Bwrdd yn cydnabod yn llawn y prif bwynt a wnaed gan Donna heddiw ein bod angen cyflymu'r gwelliannau. Cymerodd aelodau'r Bwrdd y cyfle i roi diweddariad i Donna ar y gwaith rydym eisoes wedi'i wneud i atgyfnerthu llywodraethu, gwella ansawdd gwasanaethau a rhoi gwell cefnogaeth i'n staff.

Rydym eisoes wedi rhoi trefniadau ar y gweill i ddatblygu themâu adroddiad HASCAS ar wersi i'w dysgu, fydd yn cael eu goruchwylio gan Grŵp Gwelliannau dan arweiniad Gill Harris, ein Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth. Byddwn yn awr yn ystyried argymhellion adroddiad Ockenden ac yn ystyried sut y dylid mynd â'r rhain yn eu blaenau drwy'r un strwythurau.

Fel mae adroddiad heddiw yn ei awgrymu, mae llawer o'n heriau presennol yn codi o faterion hanesyddol. Mae llawer o waith i'w wneud i ymgorffori gwelliannau ar draws y sefydliad cyfan, ond rydym yn llwyr ymroddedig i gyflymu'r newid sy'n digwydd er lles y boblogaeth a wasanaethwn a'n staff ymroddgar sy'n gweithio'n galed."